# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Donna Watts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cygnor a gynhaliwyd yng Ngorffwysfan
**Nos Iau 25 Hydref 2018**

**PRESENNOL:**
**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Walter Williams
Y Cynghorydd Mary Jones
Y Cynghorydd Griff Morris
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Einir Williams

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Linda Brown
Y Cynghorydd Ann Williams

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Godfrey Northam

1. **Croesawyd** pawb i'r Cyfarfod gan y Cyng. Einir Williams.
   **Ymddiheuriadau** gan y Cyngr. Paul Rowlinson, Rheinallt Puw, Pearl Evans, Dyfrig Jones, Susan Davies a Bleddyn Williams.

Pawb yn dymuno penblwydd hapus i'r Cyng. Griff Morris sy'n dathlu ei benblwydd yn 80 oed heddiw

**2. Datgan Diddordeb**
Eitem 6, Partneriaeth Ogwen: Y Cyngr. Griff Morris a Neville Hughes

**3. Materion Brys**
**3.1 Dail ar y llwybrau** – angen gofyn wrth ein contractwr i lanhau'r llwybrau, yn enwedig y rhai serth. Hefyd angen gofyn wrtho i dacluso'r gofeb erbyn Sul y Cofio.

**4. Cofnodion**
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Medi 2018.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**
**5.1 Cloc Gorffwysfan**- yr hawl i'r Clerc weithredu.
**5.2 Gordyfiant ar y ffordd rhwng yr Hen Iard Glo a groeslon Gerlan**-y wal wedi cael sylw, a cais wedi mynd at perchennog y tir i docio'r gwrychoedd.
**5.3 Clwb Ieuenctid –** yn dilyn y cyfarfod gyda swyddogion Cyngor Gwynedd, trafodwyd sut fydd y trefniant newydd yn gweithio. Cyngor Gwynedd yn hysbysebu'r 2 swydd ar unwaith.

**6. Adroddiad Partneriaeth Ogwen**
Pawb wedi cael adroddiad ysgrifenedig gyda diweddariad ar holl waith/brosiectau'r Bartneriaeth. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a diolch i'r tîm am waith ardderchog. Y

Cyngor eisiau datgan eu cefnogaeth tuag at drafnidiaeth trydan, yn dilyn y digwyddiad Cludiant Cymunedol.

**7. Adroddiadau gan Gynrychiolwyr**
**Parc Cenedlaethol Eryri** – y Cyng. Godfrey Northam wedi mynychu'r noson ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref. Noson ddiddorol yn trafod prosiectau yn y Parc, y broses o sylwebu ar geisiadau cynllunio a'r problemau parcio wrth Llyn Ogwen
**Cymdeithas Cludiant Cymunedol** – cafwyd adroddiad gan y Cyng. Godfrey Northam am y digwyddiad 'Cysylltu Cymunedau yng Nghymru' a lansiad y Rhwydwaith Arloesi Cludiant.
**Pwyllgor Cyllid** – pawb wedi cael copi o'r cyfrifon diweddaraf. Y Cyngor yn derbyn yr adroddiad.
**Balchder Bro** – y bylbiau cennin pedr wedi cael eu plannu o amgylch y fro, Bethesda, Tal y Bont a Llandygai. Bydd gardd Capel Jerusalem yn cael sylw yn y gwanwyn. Adroddwyd hefyd bod y gwirfoddolwyr wedi trefnu gwneud ymgyrch casglu sbwriel gyda disgyblion Ysgol Tregarth yfory.

**8. Maes Parcio Gerlan**
Pawb wedi derbyn copi drafft o'r daflen diweddariad ar gyfer trigolion Gerlan. Y Cyngor yn derbyn y pris sydd wedi ei argymell gan yr Asiant Tir, yn ddibynnol ar y gost o ddargyfeirio'r ffôs.

**9. Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi cael copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Hydref 2018'
**9.1** Llythyr gan Partneriaeth Ogwen-gwahoddiad i'r Cadeirydd neu gynrychiolydd, i gyfarfod i drafod y gwasanaeth mae'r Bartneriaeth yn ei ddarparu i'r Cynghorau. Y Cyng. Godfrey Northam ar gael (a'r Cyng. Mary Jones wrth gefn).
**9.2** E-bost gan y Cyng. Rheinallt Puw- cais i wella'r cae pêl-droed yn Abercaseg – torri'r gwair fwy rheolaidd, marcio'r cae a gosod rhwydi ar y goliau. Penderfynwyd cael dyfynbrisiau am y gwaith, ac hefyd cynnwys caeau chwarae Rachub a Gerlan yn y cais.
**9.3** E-bost gan Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol-Adroddiad Blynyddol 2019/20. Nodwyd yr ohebiaeth.
**9.4** E-bost gan Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, Cyngor Gwynedd-Age Cymru yn cynnig grant o £150 i grwpiau cymunedol gynnal digwyddiad cymdeithasol o gwmpas y Nadolig neu'r Flwyddyn Newydd i drigolion hŷn yr ardal fel ffordd ymarferol o daclo unigrwydd. Penderfynwyd anfon y wybodaeth ymlaen at gymdeithasau lleol.
**9.5** E-bost gan Partneriaeth Ogwen ynglŷn a cynllun wi-fi cymunedol – cais am ymrwymiad o gefnogaeth ariannol. Penderfynwyd bod y Cyngor yn fodlon cyfrannu £1000.

**10. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio**
**<u>Penderfyniadau</u>**
**C18/0592/13/CR**

| | |
|---|---|
| Capel Bethania, Ffordd Bangor, Bethesda | Addasiadau mewnol ac allanol i drosi adeilad yn 2 uned wyliau<br>**Penderfyniad:** Holl ymgynghoriadau drosodd |

**C18/0706/13/AC**

| | |
|---|---|
| Tir gyferbyn Plas Ffrancon, Lon Newydd, Bethesda | Rhyddhau amodau o ganiatâd cynllunio C15/0128/13/LL<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd, yn ddi-amodol. |
| **C18/0687/13/LL**<br>13-15 Stryd Fawr, Bethesda | Newid defnydd o siop wag Defnydd Dosbarth A1 i Ddefnydd Dosbarth A3 (bwyd a diod)<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd, gydag amodau |

**11. Taliadau**

Awdurdodwyd y canlynol

| | |
|---|---|
| Cyflogau (Hydref) | £271.30 |
| CThEM (Hydref) | £68.00 |
| Londis-papurau (Medi) | £28.00 |
| Parry & Co | £330.00 |
| E Goodall – ffenestri Gorffwysfan | £7.00 |
| Lady Haig's – torch | £34.00 |
| Lexis Nexis – llyfr | £110.99 |
| Scottish Power-golau Nadolig | £26.65 |
| Scottish Power- golau Nadolig | £26.65 |
| Partneriaeth Ogwen-Gwasanaeth Clercio | £14652.37 |